**Dinas a Sir Abertawe**

# Cofnodion Cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio

**Siambr y Cyngor, Neuadd y Ddinas, Abertawe**

**Dydd Mawrth, 5 Rhagfyr 2017 am 2.00 pm**

**Yn Bresennol**: Y Cynghorydd P Lloyd (Cadeirydd) oedd yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| C Anderson | P M Black | L S Gibbard |
| M H Jones | M B Lewis | R D Lewis |
| P B Smith | D W W Thomas | L J Tyler-Lloyd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorydd(wyr): A H Stevens a/ac T M White

---

## 46 Datgeliadau o fuddiannau personol a rhagfarnol.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

## 47 Cofnodion.

**Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar 7 Tachwedd 2017 fel cofnod cywir.

## 48 Eitemau i'w gohirio/tynnu'n ôl.

(Eitem 1) Cais Cynllunio 2017/1684/OUT - Adeiladu 40 o anheddau, ffordd fynediad newydd a gosod pont newydd (amlinellol) ar dir yn Felin Frân, Llansamlet, Abertawe

Tynnwyd y cais yn ôl gan yr ymgeiswyr.

## 49 Penderfynu ar Geisiadau Cynllunio o dan Ddeddf Cynllunio Gwlad a Thref 1990.

Cyflwynwyd cyfres o geisiadau cynllunio ar ran Pennaeth Cynllunio ac Adfywio'r Ddinas.

Adroddwyd am ddiwygiadau/ddiweddariadau i'r atodlen hon a nodir y rhain isod â (#)

**Penderfynwyd**

1) **Cymeradwyo'r** ceisiadau cynllunio isod yn unol â'r amodau yn yr adroddiad a/neu a nodir isod:

(Eitem 2) Cais Cynllunio 2017/2201/FUL - Annedd newydd ar wahân gyda garej ar wahân yn Underhill, Llanmadog, Abertawe

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

(Eitem 3) Cais Cynllunio 017/2220/FUL - Newid o ddefnydd preswyl (Dosbarth C3) i HMO 3 ystafell wely (Dosbarth C4) yn 8 Stryd Lewis, St. Thomas, Abertawe.

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y Pwyllgor gan Mr Rowe (gwrthwynebydd).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorwyr C E Lloyd a J Hale (aelodau lleol) a siaradon nhw yn erbyn y cais.

(Eitem 4) Cais Cynllunio 2017/1451/OUT - Datblygiad preswyl o hyd at 100 o anheddau yn ogystal â lleoedd parcio, mynediad tirlunio a mannau agored cysylltiedig. (cais amlinellol - holl faterion wedi'u cadw ar wahân) yn hen Bwll Glo Cefn Gorwydd, Heol Gorwydd, Tregŵyr, Abertawe

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y pwyllgor gan Mike Rowlands a Val Higgon (gwrthwynebwyr) a Phillipa Cole (asiant).

Anerchwyd y pwyllgor gan y Cynghorydd C A Holley ar ran y Cynghorydd S M Jones (aelod lleol) a siaradodd yn erbyn y cais.

Cymeradwywyd y cais yn unol â'r argymhelliad yn amodol ar adran 106 y Rhwymedigaeth Gynllunio fel y'i nodir yn yr adroddiad.

(Eitem 5) Cais Cynllunio 2017/2195/ADV - 1 arwydd mewnol sy'n sefyll ar ben ei hun wedi'i oleuo a 2 arwydd ffens wedi'u gosod heb eu goleuo yn 30 Cilgant Uplands, Uplands, Abertawe

Rhoddwyd cyflwyniad gweledol.

Anerchwyd y Pwyllgor gan y Cynghorwyr N J Davies ac I E Mann (aelodau lleol), a oedd yn siarad yn erbyn y cais.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.17 pm

**Cadeirydd**